



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor

CANLLAW I FYFYRWYR

Eich Tîm Plismona yn y Brifysgol



SCCH / PCSO 3676
Gethin Fon Owen



SCCH / PCSO 2905
Ahmed Refaat

Croeso i Brifysgol Bangor

Mae Gogledd Cymru yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y wlad ac rydym yn gobeithio y bydd eich amser chi yma ym Mangor yn llwyddiannus, yn llawn mwynhad, ac yn bennaf oll, y byddwch yn cadw'n saff.



I gysylltu â thîm Plismona'r Brifysgol ffoniwch 01286 670924



BangorUniversity.PolicingTeam
@nthwales.pnn.police.uk



NWPBangorUniPolice



Bangor University Policing team

Am fwy o wybodaeth ewch i
wefan Heddlu Gogledd Cymru.



www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk

PETHAU PWYSIG I'W COFIO

Mewn Neuaddau neu Dai Preswyl

- ✓ Clowch y drysau a chaewch y ffenestri. Mae 90% o ladradau'n digwydd oherwydd bod drysau a ffenestri'n cael eu gadael heb eu cloi neu heb eu cau.
- ✓ Cofiwch riportio pobl ddieithr sy'n ymddwyn yn amheus bob amser.

Diogelu Eich Eiddo

- ✓ Peidiwch â gadael eitemau gwerthfawr yn y golwg yn eich neuadd/tŷ pan fyddwch allan, a phan fyddwch yn eich darlithoedd yn y Brifysgol, cadwch eich llygad ar eich eiddo drwy gydol yr amser.
- ✓ Cadwch lygad am ein dyddiau cofrestru eiddo neu cofrestrwch eich eiddo yn www.immobilise.com
- ✓ Ceisiwch beidio â thynnu sylw at eich arian parod, eich ffôn a phethau gwerthfawr eraill, dydych chi byth yn gwybod pwy sy'n gwyllo.
- ✓ Ceisiwch gadw eich pethau gwerthfawr mewn gwahanol lefydd yn hytrach nag mewn un boced neu fag er mwyn osgoi colli popeth os caiff bagiau neu gotiau ayyb eu dwyn.
- ✓ Cofiwch greu copïau wrth gefn o'ch holl ddata, gwaith a dogfennau cyfrifiadurol ar systemau ar wahân.
- ✓ Beics – pan fyddwch yn gadael eich beic tynnwch bopeth bosibl oddi arno a'i gloi efo clo 'D', gan fod cadwyni'n hawdd i'w torri.



IMMOBILISE
PROPERTY CRIME

www.immobilise.com

Diogelwch Personol

- ✓ Wrth ddefnyddio iPods ac yn y blaen, cofiwch fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen o'ch cwmpas. Pan fyddwch yn eich byd bach eich hun yn gwranddo ar gerddoriaeth fe allech fod yn darged hawdd i droseddwr.
- ✓ Byddwch yn ofalus pan fyddwch ar noson allan – cadwch lygad ar eich diod drwy'r amser a pheidiwch â chymryd diod gan ddieithriaid.
- ✓ Pan fyddwch allan yn yfed, gofalwch am eich gilydd a gwnewch yn siŵr fod pawb yn gallu mynd adref yn ddiogel.
- ✓ Mae alcohol yn effeithio ar eich gallu i wneud penderfyniadau doeth ac ar y ffordd yr ydych yn gweld sefyllfaoedd, a gall roi eich diogelwch personol yn y fantol. Ceisiwch yfed yn gymedrol er mwyn aros yn ddiogel.
- ✓ Mae rhyw heb ganiatâd clir, dealladwy yn drais rhywiol.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod wedi dioddef ymosodiad rhywiol, ffoniwch yr heddlu ar **101** neu



mewn argyfwng ffoniwch **999**

Peidiwch â dioddef mewn distawrwydd - gallwch gael cefnogaeth heb gynnwys yr heddlu ar y rhif ffôn cyfrinachol isod:



0808 156 3658

78924

Bydd cymorthfeydd yr heddlu ar gael am gymorth a chynghor. Rydym yma i helpu